



Safle Treftadaeth y Byd Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte

# Diwrnod ym mywyd William ac Alice

## Nodiadau Canllaw ar gyfer Athrawon

### Amcanion Dysgu

- Ymchwilio i fywydau dau blentyn gwahanol iawn sy'n byw ger Dyfrbont a Chamlas Pontcysyllte
- Cymharu bywydau plant tlawd a chyfoethog yn oes Fictoria
- Datblygu sgiliau archwilio, ymchwilio a chasglu ffeithiau gan ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau

### Adnoddau

- [Bywyd ar Ddyfrffyrdd Lloegr](#)
- [Bywyd caban cychwr cychod cul](#)
- [Celf werin y Gamlas](#)
- [Teulu Fictoraidd Cyfoethog](#)
- [Bywyd Cartref Fictoraidd](#)

### Cyfarwyddiadau Gweithgareddau

Bydd dysgwyr yn defnyddio amrywiaeth o adnoddau a'u hymchwil eu hunain i gymharu bywydau dau blentyn go iawn a oedd yn byw yn Ffroncysyllte yn oes Fictoria. Byddant yn canolbwyntio ar Alice Graesser, merch diwydiannwr cyfoethog a oedd yn byw yn Neuadd Argoed a William Davies, mab cychwr a oedd yn gweithio gyda'i dad ar gwch camlas. Bydd dysgwyr yn gallu defnyddio deunyddiau o'r gweithgaredd 'Cymharu bywydau'r cyfoethog a'r tlawd' i ddarganfod ffeithiau am y ddau ohonynt ac yna adeiladu ar y rhain i ddatblygu diwrnod yn eu bywydau, ysgrifennu darnau creadigol a chymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl.



### Syniadau Gweithgareddau Cychwynnol:

**Ymchwilio:** Defnyddio'r gweithgaredd 'Cymharu bywydau'r cyfoethog a'r tlawd' i ddysgu mwy am Alice Graesser a William Davies. Beth ydych chi wedi'i ddarganfod? Faint oedd eu hoed nhw yn 1881? Lle oedden nhw'n byw? Beth oedden nhw'n ei wneud?



**Trafod:** Beth oeddech chi'n feddwl oedd fwyaf diddorol am Alice a William? (e.e. eu swyddi, eu hysgol, eu tai).

### Further Activity Ideas:

Sut mae bywydau William ac Alice yn cymharu â'th fywyd di?

Ymchwilio i Gefn Mawr a Ffroncysyllte yn ystod oes Fictoria. Sut lefydd oedden nhw?

Creu gwaith celf ar gyfer eich cartref: creu darn o gelf camlas ar gyfer eich cwch camlas neu beintio darlun o gefn gwlad Cymru ar gyfer eich Neuadd.



### Briff ar Gyfer Dygwyr:

Gwnewch eich ymchwil eich hun i fywydau plant oes Fictoria, crëwch ddarlun o sut fyddai bywyd dydd i ddydd William ac Alice wedi bod, gan ddefnyddio'r adnoddau sydd wedi cael eu hawgrymu a dod o hyd i'ch adnoddau eich hun. Dychmygwch mai chi ydi William Davies ac Alice Graesser.

**Ysgrifennu:** Disgrifiwch ddiwrnod ym mywyd y cymeriad yr ydych chi wedi ei ddewis fel petaech yn ysgrifennu mewn dyddiadur, gan ddefnyddio'r wybodaeth yr ydych chi wedi dod o hyd iddi.

Beth wnaethoch chi?

Sut oeddech chi'n teimlo?

Beth wnaethoch chi ei weld?

**Perfformio:** Defnyddiwch y wybodaeth yr ydych chi wedi ei darganfod i greu darnau chwarae rôl fel y ddau blentyn

### Meddylwch am:

- Beth fydden nhw wedi ei ddweud wrth ei gilydd?
- Beth fydden nhw wedi ei ofyn i'w gilydd?
- Beth sydd yr un fath/yn wahanol am eu bywydau?
- Pwy sy'n rhan o'u teuluoedd?
- Pwy oedd yn byw yn eu cartrefi?
- Disgrifiwch lle oedden nhw'n byw
- Beth ydi gwaith eu rhieni nhw?
- Beth maen nhw'n ei wneud?

